Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	26 Gorffennaf 2022
Aelod Arweiniol / Swyddog	Y Cynghorydd Rhys Thomas (Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau) / Ann Lloyd (Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro)
Awdur yr adroddiad	Hayley Jones / Nigel Jones
Teitl	Caffael Gwasanaeth Cymorth Llety Brys Dros Dro newydd (Atal Digartrefedd)

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am gynnig ar gyfer prosiect cymorth llety brys dros dro newydd i atal digartrefedd gyda chais am gymeradwyaeth i gychwyn y gwaith o gaffael y gwasanaeth hwn

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen penderfyniad ar dendro ar gyfer prosiect cymorth llety brys dros dro newydd i atal digartrefedd. Mae'r Ffurflen Gomisiynu (gweler Atodiad 1) eisoes wedi'i chymeradwyo gan y partïon perthnasol, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Gontractau Sir Ddinbych.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Mae'r argymhellion am y penderfyniadau a nodir isod:

3.1. Bod y Cabinet yn cymeradwyo cychwyn y broses gaffael fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1 y Ffurflen Gomisiynu.

3.2. Bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen a chymryd yr Asesiad Lles i ystyriaeth (gweler Atodiad 3 ar gyfer yr Asesiad o Effaith ar Les drosfwaol ar gyfer Cynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai 2022-2025).

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Rydym am ddatblygu ein cynnig llety brys dros dro i ddarparu gwell profiad lle mae pobl yn cael eu cefnogi i wella eu lles ac adeiladu ar eu dyfodol. Fel y nodwyd yn ein Cynllun Cyflawni Grant Cymorth Tai 2022-2025, rydym am ddatblygu ein cynnig cymorth i bobl a leolir mewn llety brys dros dro.

4.2. Rydym am i'r prosiect hwn ddarparu cymorth cyfannol i ddinasyddion sydd wedi'u lleoli mewn llety brys dros dro sy'n eiddo i'r awdurdod lleol er mwyn lleihau'r risg y bydd digartrefedd yn digwydd eto a gwella canlyniadau llesiant.

4.3. Rydym yn awyddus i weld rhaglen ymgysylltiol o weithgareddau ystyrlon yn elfen allweddol o'r prosiect hwn. Rydym hefyd am i'r prosiect allu darparu cymorth i bobl a leolir mewn llety brys dros dro ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos, felly bydd angen darpariaeth staffio dros nos.

4.4. Bydd yr unigolion a gefnogir fel rhan o'r prosiect hwn o unrhyw ryw; 16 oed a throsodd; sengl neu ran o gwpl, a gall fod ganddynt blant ac anifeiliaid anwes dibynnol neu beidio.

4.5. Mae Asesiad o Effaith ar Les wedi ei gwblhau ar gyfer y Cynllun Cyflawni Grant Cymorth Tai trosfwaol – gweler atodiad 3.

4.6. Bydd y contract hwn yn cael ei ariannu'n llawn drwy'r Grant Cymorth Tai a geir gan Lywodraeth Cymru.

4.7. Rydym wedi amcangyfrif y costau a gwerth am arian yn seiliedig ar gyfradd feincnodi gyfwerth ag amser llawn y Grant Cymorth Tai; fodd bynnag bydd gwerth am arian yn cael ei werthuso a bydd yn bosib ei drafod ymhellach fel rhan o'r ymarfer caffael.

4.8. Byddai'r contract am gyfnod o bum blynedd gydag opsiwn i'w ymestyn am bump arall, yn amodol ar berfformiad boddhaol a pharhad cyllid a pherthnasedd strategol. Contract newydd sbon fydd hwn, felly nid yw eisoes yn cael ei ddarparu gan unrhyw un.

4.9. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei fonitro drwy gydol y flwyddyn. Bydd disgwyl i'r darparwr/darparwyr gyflwyno ffurflenni monitro perfformiad chwarterol ac adroddiadau deilliannau bob 6 mis yn unol â'r Fframwaith Deilliannau Cefnogi Pobl/GCT. Bydd gan y prosiect hefyd nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol unigryw, fel yr amlinellir ym manyleb y prosiect (gweler atodiad 2).

4.10. Rydym yn gobeithio cynnig y cyfle tendr hwn i'r trydydd sector gan fod ganddynt y profiad a'r arbenigedd o weithredu llety â chymorth 24 awr. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr angen i Awdurdodau Lleol (ALl) weithio mewn partneriaeth â'r Trydydd Sector a derbynnir yn eang eu bod yn cael eu sbarduno gan werth a'u cymell gan amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol, yn hytrach na gwneud elw yn unig; yn ogystal â hynny, maent wedi ymrwymo i ail-fuddsoddi eu gorwerth i ehangu eu nodau cymdeithasol er budd pobl a chymunedau.

4.11. Fel Comisiynwyr Awdurdod Lleol, fe ddylem gefnogi'r Trydydd Sector a'r economi ehangach gyda'n grym gwario lle bo cyfle i gefnogi nodau ac amcanion yr ALl. Drwy ddarparu contractau cyhoeddus, mae gan ein grym gwario'r potensial i ddylanwadu ar ddatblygiad y farchnad yn y tymor canolig a'r hirdymor a chreu cyfleoedd i ddarparu canlyniadau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol, bodloni anghenion y presennol heb gael effaith ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Tai: Bydd ffocws clir (a dangosyddion perfformiad) perthnasol i gefnogi pobl er mwyn osgoi'r perygl o ddigartrefedd.

5.2. Clymu Cymunedau: Un o ofynion allweddol y gwasanaeth yw y bydd yn hygyrch, gan gynnwys ystyriaeth benodol a chreadigedd o ran y gweithgareddau ystyrlon mewn amrywiaeth o leoliadau yn y gymuned ar draws Sir Ddinbych i wella lles pobl.

5.3. Cymunedau Cryf: Mae meithrin annibyniaeth a gwytnwch yn nodau allweddol o'r prosiect hwn. Drwy amryw o ddulliau bydd yn ceisio rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i bobl a chymunedau i'w galluogi i atal a mynd i'r afael â digartrefedd a gwella llesiant. Bydd y gallu i fynd i'r afael â phroblemau a gwella llesiant yn helpu i atal digartrefedd rhag digwydd eto.

5.4. Yr Amgylchedd: O ran cyflawni'r prosiect, bydd y cymorth yn cael ei seilio ar ddau safle sy'n eiddo i'r cyngor a fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer llety brys dros dro ac fel canolbwynt ar gyfer y rhaglen o weithgareddau sydd i'w darparu. Yn ychwanegol mae'n rhaid darparu Manteision Cymunedol fel rhan o'r prosiect hwn ac rydym wedi

nodi bod gennym ddiddordeb penodol mewn cynigion a fydd yn helpu CSDd i wireddu ei amcanion Di-garbon Net.

5.5. Pobl Ifanc: Bydd pobl ifanc 16+ ac oedolion gyda phlant yn cael eu cynnwys o fewn cwmpas cymorth uniongyrchol y prosiect hwn. Disgwyliwn y bydd rhywfaint o'r cymorth a'r gweithgareddau hefyd o fudd i blant a phobl ifanc sy'n byw yn y llety.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Bydd y prosiect hwn yn cael ei noddi'n llwyr drwy Grant Cymorth Tai Sir Ddinbych a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Disgwyliwn y bydd y ddarpariaeth yn lleihau'r effaith ar wasanaethau statudol a chostau Gwely a Brecwast cysylltiedig.

6.2. Rydym yn ymgynghori â'r cabinet o ganlyniad i lefel gwariant y prosiect hwn gan mai amcangyfrif gwerth y contract blynyddol yw £914,000 gyda'r bwriad o gynnig contract 5 mlynedd gyda'r opsiwn i'w ymestyn am 5 mlynedd arall.

6.3. Byddai'r costau o ddarparu gwasanaeth mewnol yn llawer mwy o ganlyniad i delerau ac amodau cyflogaeth yr Awdurdod Lleol, felly byddai darparu'r prosiect drwy'r Trydydd Sector yn cynnig gwell gwerth am arian (Atodiad 4).

6.4. Mae dull y polisi Manteision Cymunedol yn ceisio gweithredu ar y diffiniad ehangach hwn o werth am arian drwy ddarparu'r buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mwyaf yn y broses o sicrhau nwyddau, gwasanaethau neu waith sy'n ofynnol gan y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae darpariaeth Manteision Cymunedol drwy brosesau caffael y sector cyhoeddus wedi'i alinio â Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn cyflawni yn erbyn ei nodau.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Sgoriodd yr asesiad o effaith a gynhaliwyd ar y Cynllun Cyflawni GCT trosfwaol 34 allan o 36, gan roi tair seren allan o bedair. Nodwyd effaith gadarnhaol ar gyfer yr holl nodau lles.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r fanyleb wedi'i datblygu yn dilyn ymgynghori helaeth, gan gynnwys arolwg budd-ddeiliaid wedi'i dargedu. Mae ymatebion yn cynnwys adborth gan ddinasyddion ac amrywiaeth eang o fudd-ddeiliaid allweddol gan gynnwys digwyddiad cwrdd â'r prynwr ym mis Mai 2022. Yn absenoldeb Pwyllgor Craffu cyn y cyfarfod Cabinet hwn, cafwyd cymeradwyaeth Prif Weithredwr y Cyngor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r cynnig yn rhan o'r strategaeth ar gyfer ymdrin ag effaith ariannol digartrefedd i ddarparu cymorth o fewn llety brys dros dro sy'n eiddo i'r cyngor a fydd, gobeithio, yn lleihau nifer y bobl sy'n cael eu lletya mewn sefydliadau Gwely a Brecwast. Bydd hyn yn helpu i reoli costau cynyddol y gwasanaeth hwn yn y dyfodol tra hefyd yn darparu gwasanaeth gwell. Ariennir costau'r cynllun hwn yn llawn gan gyllid allanol gan Lywodraeth Cymru ac ar y sail honno caiff y penderfyniad ei gefnogi'n llawn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Bydd proses dendro gadarn, yn cynnwys gwerthuso gan banel amrywiol (yn cynnwys aelodau gyda phrofiad uniongyrchol o ddigartrefedd/risg o ddigartrefedd) yn sicrhau y byddwn hyd eithaf ein gallu yn dyfarnu'r contract hwn i'r darparwr/darparwyr gorau.

10.2. Caiff pob prosiect a ariennir drwy'r Grant Cymorth Tai eu monitro'n rheolaidd i sicrhau y gellir adnabod a rhoi sylw i unrhyw broblemau/risgiau cyn gynted â phosibl. Fel prosiect a model darpariaeth newydd, byddwn yn gweithio'n agos â'r darparwr/darparwyr i ddysgu a datblygu arfer gorau.

10.3. Rydym yn cynnwys cymalau yn ein holl gontractau sy'n caniatáu i ni derfynu neu newid y contract (gyda'r cyfnodau priodol o rybudd) pe bai toriad o'i amodau, lleihad yng nghyllid LlC neu unrhyw sail arall dros derfynu a allai godi.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Bydd datblygu a thendro'r contract yn cael ei gefnogi dan y Sir o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) a Rheoliadau Ariannol a Rheolau Gweithdrefn Gontractau (rheolau 2.7.1 a 5.5) Cyngor Sir Ddinbych.

11.2. Pŵer wedi'i ddirprwyo i'r Aelod Cabinet fel y nodir yn Atodiad 2(b) Adran 13 Cynllun Dirprwyo Aelodau yng Nghyfansoddiad y Cyngor.